

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

RHONDDA CYNON TAF

**(FFORDD YSTAD DDIWYDIANNOL ABERGORCI,
TREORCI)**

**GORCHYMYN (AMRYWIAD A CHYFYNGIADAU AROS)
2022**

DYMA HYSBYSIAD bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn bwriadu gwneud amryw Orchmynion o dan Adrannau 1, 2, a 4 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill, a'i effaith fydd:

1. Amrywio'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig wedi'i nodi yn Atodlen 1
2. Cyflwyno'r cyfyngiadau aros sydd wedi'u nodi yn Atodlen 2

Mae modd archwilio copi o'r dogfennau perthnasol ar-lein: www.rctcbc.gov.uk

Rhaid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig arfaethedig ynghyd â'r rhesymau drostyn nhw, mewn ysgrifen, at y Rheolwr Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU, neu drwy e-bost: GwasanaethauTraffig@rctcbc.gov.uk erbyn 27 Hydref 2022

ATODLEN 1 – Amrywio

1. Bydd 'eitem a' "Gorchymyn 2018 (Llefydd Parcio Bysus Ysgol) (Ystad Ddiwydiannol Abergorci, Treorci) Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf" yn cael ei dileu o'r atodlen yn llwyr:
 - a. Ochr dde-orllewinol Ffordd Ystad Ddiwydiannol Abergorci o bwynt 23 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Stryd Crichton, i'r gogledd-orllewin am bellter o 25 metr.

ATODLEN 2 – Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg


Ffordd Ystad Ddiwydiannol Abergorci (i gyfeiriad y gogledd-orllewin)

1. Ar y ddwy ochr, o bwynt sydd 20 metr i'r de o ochr ddeheuol Uned 17 Ystad Ddiwydiannol Abergorci, tua'r de ddwyrain am bellter o 67 metr.

Ffordd Ystad Ddiwydiannol Abergorci (i gyfeiriad y de orllewin o Stryd Crichton)

1. O'r ddwy ochr, o'i chyffordd â'r rhan o Ffordd Ystad Ddiwydiannol Abergorci sy'n mynd tua'r gogledd orllewin, i'r gogledd ddwyrain tuag at Stryd Crichton am bellter o tua 20 metr.

Dyddiad 6 Hydref 2022



Andrew Wilkins
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm
Clydach, CF40 2XX

RHONDDA CYNON TAFF

COUNTY BOROUGH COUNCIL

**(ABERGORKI INDUSTRIAL ESTATE ROAD,
TREORCHY)**

**(VARIATION AND WAITING RESTRICTIONS) ORDER
2022**

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Rhondda Cynon Taff County Borough Council propose to make various Orders under Sections 1, 2, and 4 of the Road Traffic Regulation Act 1984 ("the Act"), and of all other enabling powers, the effect of which will be to:

1. Vary the Traffic Regulation Order specified in Schedule 1
2. Introduce waiting restrictions as specified in Schedule 2

A copy of the relevant documents may be inspected online at www.rctcbc.gov.uk

Objections to the proposal together with the grounds on which they are made must be sent in writing to the Traffic Manager, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or by email on trafficservices@rctcbc.gov.uk by 27 October 2022

SCHEDULE 1 – Variation

1. The "Rhondda Cynon Taff County Borough Council (Abergorki Industrial Estate, Treorchy) (School Bus Parking Places) Order 2018" shall be varied by the removal of 'item a' from the schedule in its entirety:
 - a. The south western side of Abergorki Industrial Estate Road, from a point 23 metres south east of its junction with Crichton Street, north westwards for a distance of 25 metres

SCHEDULE 2 – Prohibition of Waiting At Any Time


Abergorki Industrial Estate Road (running north westwards)

1. Both sides, from a point 20 metres south of the southern building line of Unit 17 Abergorki Industrial Estate, south eastwards for a distance of approximately 67 metres

Abergorki Industrial Estate Road (running south west from Crichton Street)

1. Both sides, from its junction with that section of Abergorki Industrial Estate Road running north westwards, north eastwards towards Crichton Street for a distance of approximately 20 metres

Dated 6 October 2022



Andrew Wilkins
Director of Legal Services
The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, CF40
2XX